# Therapi ymbelydredd ar gyfer cam cynnar clefyd Dupuytren

21 Rhagfyr 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Nid oes unrhyw bryderon diogelwch mawr ynghylch therapi ymbelydredd ar gyfer cyfnod cynnar clefyd Dupuytren (heb anffurfiad), ond nid oes llawer o dystiolaeth dda am ba mor dda y mae'n gweithio. Dylai ond cael ei defnyddio os rhoddir esboniad manwl o'r risgiau a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu beth sy'n digwydd. Mae angen cynnal rhagor o ymchwil ar y driniaeth hon ac efallai y bydd NICE yn ailystyried y driniaeth os caiff rhagor o dystiolaeth ei chyhoeddi.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn arbennig, dylai egluro'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

### Sylwadau eraill gan NICE

Dywedodd NICE fod llawer o bobl sydd wedi cael y driniaeth wedi rhoi sylwadau cefnogol. Ond, dywedodd efallai mai dim ond y bobl hynny y byddai eu clefyd yn gwaethygu heb driniaeth y byddai'r driniaeth yn eu helpu, a bod y bobl hynny yn anodd eu nodi. Dywedodd hefyd nad oedd unrhyw adroddiadau cyhoeddedig o ganser, er gwaethaf y risg ddamcaniaethol o ganser yn datblygu oherwydd yr ymbelydredd.

## Y cyflwr

Mae clefyd Dupuytren yn golygu bod y feinwe gysylltiol yng nghledr y llaw yn tewychu. Mae hyn yn achosi i nodylau (lympiau bach caled) ffurfio o dan

groen cledr y llaw. Dros amser, gall y nodylau ffurfio llinynnau o feinwe. Gall y llinynnau hyn fyrhau gan achosi i'r bysedd blygu'n barhaol tuag at gledr y llaw, gan leihau symudedd ac achosi poen. Yn aml, mae clefyd Dupuytren yn ysgafn ac nid oes angen triniaeth. Ond efallai y bydd triniaeth yn helpu os bydd y cyflwr yn rhwystro'r llaw rhag gweithio fel y dylai. Mae'n cynnwys pigiadau gyda meddyginiaeth o'r enw colagenas, nodwydd i dorri'r llinynnau o feinwe sydd wedi tynhau neu, mewn achosion difrifol, llawdriniaeth.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio therapi ymbelydredd fel opsiwn triniaeth arall.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Mae therapy ymbelydredd ar gyfer cyfnod cynnar clefyd Dupuytren yn golygu cyfeirio pelydrau-x ynni isel at y feinwe dan sylw. Y nod yw atal y clefyd rhag gwaethygu. Fel arfer, caiff 10 dos o ymbelydredd eu rhoi mewn dau gam, gyda dosau'r ail gam yn cael eu rhoi ar ôl saib o rhwng chwech a 12 wythnos. Neu, rhoddir saith dos bob yn ail ddiwrnod dros gyfnod o bythefnos.

## Buddiannau a risgiau

Penderfynodd NICE nad oedd llawer o dystiolaeth gadarn ynghylch pa mor dda y mae therapi ymbelydredd yn gweithio ar gyfer cam cynnar clefyd Dupuytren, yn enwedig gan ei fod yn anodd dweud pwy fyddai'n gwella beth bynnag heb unrhyw driniaeth. Roedd y saith astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 925 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- Gwnaeth y symptomau wella mewn tua 50% o bobl ac ni wnaethant waethygu mewn tua 35% o bobl, hyd at tua 40 mis ar ôl y driniaeth.
- Gwnaeth y clefyd wella mewn 10% o ddwylo a gafodd eu trin, roedd yn sefydlog mewn 59% o ddwylo ac yn waeth mewn 31% o ddwylo. Roedd angen cyflawni llawdriniaeth yn achos 20% o ddwylo, hyd at tua thair blynedd ar ôl y driniaeth.
- Lefel uchel o foddhad ymhlith cleifion hyd at tua 40 mis ar ôl y driniaeth.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau sy'n gysylltiedig â therapi ymbelydredd yn cynnwys:

- Croen tyner, coch, sych neu'n pilio, neu boen ysgafn mewn hyd at 50% o bobl, a chwyddo amlwg mewn 2% o bobl, bedair wythnos ar ôl y driniaeth.
- Croen yn tynhau ychydig, croen sych, croen yn pilio, croen yn tewychu neu'n teneuo, chwyddo ysgafn a theimlad gwahanol mewn hyd at 30% o bobl sawl blwyddyn ar ôl y driniaeth.
- Cledr y llaw ddim yn chwysu mewn 4% o bobl ar ôl 40 mis.
- Achosion a hunanadroddwyd o wendid yn y llaw, ewinedd llai iach a'r croen yn tywyllu, pob un mewn 3% o bobl, ar ôl 31 mis.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-2313-7